S4C

# Datblygwr Gwe

## S4C – Amdanom ni

S4C yw'r darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) Cymraeg annibynnol. Cafodd ein gwasanaeth teledu – yr unig sianel Gymraeg – ei lansio ym 1982. Gallwch weld S4C ym mhob rhan o'r Deyrnas Gyfunol ar y teledu, drwy ein chwaraeydd S4C Clic, ar BBC iPlayer a chyfryngau cymdeithasol. Daw'r rhan fwyaf o'n cyllideb o ffi'r drwydded.

Mae yna amrywiaeth eang o raglenni ar S4C, gan gynnwys newyddion, materion y dydd, drama, rhaglenni dogfen, cerddoriaeth, adloniant, chwaraeon a rhaglenni plant. Cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n cynhyrchu mwyafrif y rhaglenni.

## Disgrifiad swydd

Bydd y Datblygwr Gwe yn gyfrifol am wneud gwaith datblygu sydd wedi'i grynhoi fel rhan o strategaeth ddigidol S4C.  Yn bennaf, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â datblygu S4C Clic, gwella profiad y gwyliwr a chyflwyno nodweddion newydd ynghyd â datblygu platfformau a gwasanaethau newydd.

Fel datblygwr gwe byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

- datblygu cymwysiadau gwe, platfformau a gwefannau;
- adolygu a diweddaru swyddogaeth a dylunio S4C Clic ar draws platfformau perthnasol;
- cynorthwyo ac arwain pan fydd angen wrth hyfforddi/ mentora'r tîm cyfathrebu;
- trafod gyda chyflenwyr trydydd parti a chysylltu â nhw;
- cefnogaeth dechnegol gyffredinol/diweddariadau ar gyfer cymwysiadau gwe a gwefannau S4C (yn ystod oriau gwaith – a thu allan i'r oriau pan fydd angen);
- darparu a chynorthwyo gyda gofynion technegol ar gyfer cymwysiadau gwe a gwefannau neu ddiweddariadau S4C;
- gwybod am y diweddaraf yn natblygiadau a thechnegau arferion gorau'r diwydiant;
- sefydlu gwefannau sy'n defnyddio S4C CMS;
- cynnal hyfforddiant defnyddwyr mewnol ar gyfer CMS, a chynghori staff pan fydd problemau'n codi;

Fel datblygwr gwe yn S4C byddwch hefyd:

- yn gyfrifol, yn bersonol, ac ar y cyd ag aelodau eraill o'r staff, am sicrhau bod S4C yn cyrraedd eu hamcanion corfforaethol ac yn darparu rhagoriaeth greadigol;

• yn sicrhau bod S4C yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol â'u hymrwymiadau statudol a strategol;

• yn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau corfforaethol;

• yn cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd yn ymwneud â'ch cyfrifoldebau craidd, ac mewn meysydd eraill, lle bydd yn gymwys, a phan ystyrir bod hynny o fudd i S4C;

• yn gyfrifol am weithio'n unol â nod S4C i greu amgylchedd weithio barchus, urddasol a diogel i'ch cydweithwyr;

• yn gweithio'n unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch, a byddwch yn gweithredu unrhyw argymhellion yn deillio o asesiadau risg i sicrhau amgylchedd weithio ddiogel i staff;

• yn atebol i weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo amgylchedd weithio gyfeillgar.

## Manylion y Person

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | • Gradd mewn maes pwnc perthnasol |
| **Profiad** | Gallu profi bod gennych brofiad o weithio yn rhaglennu gwefannau, yn benodol JavaScript | • Profiad o fframwaith JavaScript megis React, React Native neu Angular<br>• Profiad o ddatblygu cymwysiadau dyfeisiau symudol<br>• Profiad o AWS neu fod yn gyfarwydd ag AWS<br>• Profiad o ddatblygu systemau rheoli cynnwys<br>• Profiad o ddadansoddi ac adrodd |
| **Sgiliau a gwybodaeth** | • Sgiliau da wrth ddadansoddi a datrys problemau<br>• Gwybodaeth fanwl o HTML/CSS<br>• Gwybodaeth o hygyrchedd gwefannau a'u gwerthfawrogi<br>• Gwybodaeth sylfaenol o Optimeiddio Peiriannau Chwilio | • Gwybodaeth o Raglennu Gogwyddo Gwrthrych a datblygu cymwysiadau'r we<br>• Gwybodaeth o reoli ffynonellau fel GIT<br>• Gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg â staff a phobl eraill ar bob lefel, yn ysgrifenedig ac ar lafar |
| **Nodweddion personol** | • Gallu dysgu ac addasu i dechnolegau newydd | |

**Manylion Eraill**

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Swyddfa S4C Caerdydd neu Caerfyrddin. Mae S4C hefyd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg.<br><br>Oherwydd achosion o'r coronafeirws, mae S4C wedi lleihau mynediad i'w swyddfeydd gan staff nad ydynt yn darlledu er mwyn sicrhau diogelwch a lles unigolion ac i ddiogelu darlledu. Felly, gall fod yn ofynnol ichi weithio o bell pan fyddwch yn ymuno â'r sefydliad os bydd y cyfyngiadau hyn yn dal mewn grym. |
| Cyflog | £32,000 - £40,000 y flwyddyn |
| Contract | Parhaol |
| Oriau | 35.75 awr yr wythnos |
| Cyfnod Prawf | 6 mis |
| Pensiwn | Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp. Bydd y cyflogwr yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |

## Cais

| | |
|---|---|
| Eich Cais | Llenwch ffurflen gais oddi wrth S4C, gan sicrhau na fydd yn hirach na dau dudalen A4.<br><br>Dywedwch wrthym **pam** mae'r swydd hon o ddiddordeb ichi, sut rydych yn gymwys i fodloni'r gofynion, e.e. a oes gennych y cymwysterau neu'r profiad perthnasol, neu a oes gennych ddiddordeb penodol mewn rhai elfennau yn y swydd.<br><br>**Cewch** gyflwyno'ch cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. NI fydd cais a gyflwynir yn Saesneg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Gymraeg.<br><br>Ni fyddwn yn derbyn CV. |
| Dyddiad Cau | 17.00yh ar 17 Medi 2020 |
| Anfonwch eich cais i: | adnoddau.dynol@s4c.cymru neu<br>Adnoddau Dynol, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin SA31 3EG.<br><br>Gallwch hefyd gysylltu â ni yn y cyfeiriad e-bost uchod i drafod y swydd ymlaen llaw neu i ofyn am ragor o wybodaeth. |
| Cyfweliadau | Cynhelir cyfweliadau o bell naill ai drwy Zoom neu Skype. |

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig na chefndir economaidd, oed, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan-amser neu amser-llawn, crefydd, gwleidyddiaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, ddefnydd o iaith (ac eithrio achosion lle mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae wedi ymrwymo i ystyried amrywiaethau mewn ffordd gadarnhaol. Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau eraill a allai fod efallai heb eu cynrychioli'n llawn, megis merched, pobl BAME a phobl anabl. Defnyddir egwyddorion cystadlu agored a theg, a chaiff penodiadau eu penderfynu ar sail haeddiant.